Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 47 Tanysgrifiad £3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd AWST 1992

## Y GOLLED

**PAN DDAW'R Brifwyl i Aberystwyth eleni yr unig le y medrwch ddarganfod *Y Faner* yw ar silffoedd y Llyfrgell Genedlaethol. Fe welodd yr hen gylchgrawn sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol, a chafodd gipdrem ar bob un — dan eleni. A rhoi o'r neilltu pa mor wych neu pa mor wachul oedd *Y Faner* fel cylchgrawn, eisoes fe deimlir ei golli. Canys yr oedd yn dal yn rhan hanfodol o'n bywyd diwylliannol. Ym mha gylchgrawn yn awr y medrwch ddibynnu y ceir adolygiad cyfrifol ar bron bob cyfrol newydd? Ac yr oedd *Y Casglwr* hwn yn ymwybodol na buasai'r *Faner* wedi anghofio coffau'r Parch. Iorwerth Jones a roddodd wasanaeth mor fawr. Fe geisiodd *Y Casglwr* yma gau'r bwlch hwnnw. Ac yr oedd yna lwyfan yn *Y Faner*, nad yw mwy.**

**Fe'ch gwelwn ni chi, a'ch dyledion gyda lwc, ym mhabell Yr Hen Bost yn Aberystwyth, ac yn y ddarlith, siawns.**

## HYWEL MORRIS a syfrdandod darganfod y lluniau colledig ond

# Ble mae Owen Myfyr a Dafydd Ddu Eryri?

YN DDIWEDDAR cynhaliwyd arwerthiant o luniau a hen ddodrefn gan Phillips yng Nghaerdydd, a'r diwrnod cynt es yno i chwilota a gweld a oedd yno rywbeth o ddiddordeb i mi. Ac yno cyfarfum a chyfaill oedd wedi gwirioni'n lân uwchben hen lun oedd wedi ei wthio i gornel.

O gael cip arno ymddangosai'n llun digon cyffredin — un o ŵr bonheddig o oes Victoria a chap nos am ei ben. Dyddiai ffrâm dderw'r llun o ganol y ganrif o'r blaen. Ond ar dop y ffrâm mewn llythrennau aur roedd yna rysgrif ryfedd:



Sylweddolais mai dull derwyddol a ddefnyddiai Iolo Morganwg a'r Doctor Price oedd yma, dull Coelbren y Beirdd. Fy ffrind a minnau'n cytuno mai 'TWM O'R NANT' a ddywedai. Ac yn wir fe gofiwyd fod yna engrafiad o'r union lun.

Astudio'r catalog. Ni ddywedai fawr mwy na, *'portrait of a gentleman . . . oil on canvass, 72 × 57cms'*. A'r pris — £150-£200.

Ac o archwilio, wele bartner i'r llun gerllaw. Arno, yn yr un math o ysgrifen yr oedd enw Dewi Wyn o Eifion. Ac yn wir yn yr un gornel wele bâr arall o luniau cyffelyb a'u henwau yn yr un math derwyddol o brint. Un ag enw Dic Aberdaron arno a'r pris yn y catalog yn £100-£150, a'r llall yn ddarlun o Gutun Peris.

Erbyn dydd yr arwerthiant roedd pedwar ohonom, a weithiai gyda'r cyfryngau, wedi penderfynu eu prynu. Rhoddwyd y dasg i mi a chefais y pedwar am bris rhesymol gan orfoleddu uwchben y sgŵp. A chael hwyl am ben gwerthwr lluniau o Bontfaen am ystyried ei hun yn arbenigwr wrth ei glywed yn datgan mai lluniau cyntefig o Rwsia oedd y pedwar.

* * *



GUTYN PERIS



TWM O'R NANT

## Ond, a yw'r lluniau'n ddilys?

MAE DADLEUON ynglŷn â dilysrwydd darluniau yn rhan o hanes arluniaeth, ac fe godwyd amheuon eisoes ynglŷn â'r darluniau y ceir eu hanes ar y ddalen yma. Wedi eu hastudio fe gred Peter Lord, sy'n arbenigwr ar ddarluniau ac wedi gwneud ymchwil arbennig i hanes yr arlunydd Hugh Hughes, nad copïau gwreiddiol ond copïau oedd y pedwar a brynwyd yng Nghaerdydd.

Cytuna mai dyma'r lluniau (uchod mae copïau gwael o'r ddau) a ddangoswyd yn Eisteddfod Rhuddlan, ond dywed mai copïau o luniau gan arlunwyr eraill a wnaed gan Taliesin o Eifion oedd y rheini — a'r rhai felly a brynwyd yng Nghaerdydd. Nid yw'n derbyn mai gwaith Hugh Hughes yw'r un ohonynt.

Ganed Taliesin o Eifion (Thomas Jones 1820-76) yn Llanystumdwy, symudodd y teulu i Langollen a dilyn ei dad fel 'plumber and decorator'. Roedd yn artist gweddol a lluniodd lu o arwyddion tafarndai. Fe'i cofir yntau fel Bardd y Gadair Ddu — enillodd ei awdl yn Eisteddfod Wrecsam, ond yr oedd wedi marw cyn dydd y cadeirio a gorchuddiwyd y gadair mewn du.

NODYN: Mewn cyfrol newydd werthfawr, *The Aesthetics of Relevance*, Gwasg Gomer, £3.75, fe danseilia Peter Lord y chwedl nad oes gan Gymru ei harlunwyr o bwys, ac fe gondemnia'r Amgueddfa Genedlaethol a Sain Ffagan am eu diystyru. Am y ddau ddarlun uchod, methwyd a chael amgenach copiau mewn pryd.

WEDI'R pryniant dyma ddechrau holi a chael fod y pedwar llun wedi hel llwch mewn seler yng Nghaerdydd er y tridegau. Ac ymchwil yn profi i'r lluniau gael eu comisiynu gan Eisteddfod Rhuddlan 1850 — fe gomisiynwyd chwe darlun, pedwar yn fy meddiant ond dau yn dal ar goll, sef Owain Myfyr a Dafydd Ddu Eryri.

Fel y dengys engrafiad yn y Llyfrgell Genedlaethol fe grogwyd y chwe darlun uwchben llwyfan yr Eisteddfod.

Mae cryn sicrwydd mai William Roose o Ginmel, artist proffesiynnol a beaentiodd y llun o Dic Aberdaron. O bosibl paentiwyd Dewi Wyn a Twm o'r Nant gan Hugh Hughes, a gyhoeddodd *The Beauties of Cambria*, ac Evan Williams wedi paentio'r chwarelwr Gutun Peris.

Y cwestiwn sy'n aros yw — ble mae lluniau Owain Myfyr a Dafydd Ddu? A beth fydd tynged y pedwar llun a brynasom ni'n pedwar? Efallai y daw rhyw gymwynaswr o noddwr ymlaen i'w prynu a'u cyflwyno i'r genedl. ni'n pedwar?

NODYN: Methwyd a chael lluniau da o'r hen bortreadau ac fe wnaed y gorau o'r gwaethaf.